Cymdeithas Brodwaith

# CYLCHLYTHYR GAEAF 2024 - 25

## ARDDANGOSFA CANGEN DWYFOR O GYMDEITHAS BRODWAITH CYMRU

Roedd dydd Sadwrn 23 Mawrth yn ddiwrnod prysurach nag arfer ym Mwyty Dylan’s Cricieth gan mai yno y cynhelid Arddangosfa Cangen Dwyfor o Gymdeithas Brodwaith Cymru rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn.
Ymwelodd llif cyson o bobl o bell ac agos yn ystod y dydd a phawb yn gwerthfawrogi’r llafur enfawr, o lwyfannu’r arddangosfa yn ogystal wrth gwrs ag edmygu’r cynnyrch cywrain a ddangoswyd yno sef gwaith aelodau dosbarth Mrs Joyce Jones sy’n cyfarfod yn wythnosol yn ei chartref yng Nghricieth gyda phawb yn ddiolchgar iawn iddi am ei harweiniad.
Roedd amrywiaeth y gwaith yn rhyfeddol gan fod yno tua 200 o wahanol eitemau yn cael eu harddangos, yn enghreifftiau o wahanol grefftau megis croesbwyth, gwaith aur, gwaith stwmp, hardanger, clytwaith a llawer mwy. Roedd yr aelodau wedi bod yn brysur yn llunio sampleri ar gyfer gwahanol achlysuron teuluol, coed teulu ac arfbeisiau a mapiau o ffermydd, a hefyd wedi bod yn gorchuddio stolion a gwneud clustogau a bagiau, ac roedd sawl enghraifft o gynnwys barddoniaeth a dywediadau yn eu gwaith. Roedd y cyfan yn hynod o safonol ac yn amlwg wedi golygu oriau, wythnosau, misoedd a hyd yn oed flynyddoedd o waith i’w creu.
Bu’n ddiwrnod prysur a llwyddiannus, ac roedd pawb yn cytuno bod y lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer arddangos yr holl gynnyrch gan fod y ffenestri mawr a’r ffaith fod y tywydd clir a braf yn gadael i’r goleuni naturiol ddangos y cyfoeth o liw a manylder y gwaith ar ei orau. Mae’r trefnwyr yn ddiolchgar i Fwyty Dylan’s am ganiatáu iddynt gynnal yr arddangosfa yno






## GAIR O'R GADAIR

Blwyddyn Newydd Dda

Diolch yn fawr iawn i Eirwen am wneud ei gwaith fel Cadeirydd. Fi sydd wedi cymeryd ei swydd drosodd gobeithio gai cystal hwyl arni.

Hefyd diolch i Esyllt am ddal ymlaen efo gwaith ysgrifenyddes a hithau wedi cael llaw driniaeth ar ei chefn a dim wedi gwella llawer. Cydymdeimlwn â hi ar golli ei gŵr ym mis Ebrill y llynedd, mae wedi cael blwyddyn anodd iawn. Gobeithio y bydd posib cael ysgrifenyddes a thrysorydd yn fuan neu mi fydd yn amhosib cario 'mlaen. Os oes gennych awydd swydd neu gwybod am rhywun fase'n barod i wneud mi fuasen yn ddiolchgar dros ben. Rydym yn gobeithio cael cyfarfod ar Zoom yn fuan.

Rydym yn edrych yn ôl ar 2024 .Yn anffodus nid oedd digon o enwau i gynnal dosbarth Joyce ym Mhlas Tan y Bwlch y llynedd. Tydi ddim yn edrych fel y cawn ddosbarth eleni chwaith gan fod Plas Tan y Bwlch mewn trafferthion ar hyn o bryd.

Mi roedd yr Arddangofsa yn Dylan's Criccieth yn llwyddiannus dros ben, ac yn dangos gwaith arbennig. Diolch iddynt am eu croeso. Neis gweld Rhys a Medwyn yn yr arddangosfa ac yn dweud dipyn o'u hanes o'u profiad a'r cefndir. Roedd yr arian yn mynd at Uned Arennol ym Mangor ac Alltwen.

Llongyfarchiadau i Lleuwen Dafydd o Benegoes, ger Machynlleth am ennill Ysgoloriaeth Brodwaith Cymru. Fel y gwelwch mae gwaith Lleuwen yn arbennig iawn.

Gwenfyl

---

## O Ardal i Ardal

## ADRODDIAD CANGEN MÔN/ARFON

Cychwynnodd ein blwyddyn yn hwyrach nag arfer gan fod ein lleoliad – Neuadd Henoed Llangristiolus, yn cael gwaith uwchraddio ei adnoddau ac addasu i fod yn hyrgyrch

Felly ym mis Chwefror i ffwrdd a ni i Oriel Môn i gael mwynhau pryd o fwyd ac edrych o gwmpas yr arddangosfeydd sydd yna. Yn ffodus i ni roedd yna arddangosfa o waith gwehyddu ymlaen. Yn anffodus bu'n rhaid i'r aelodau ddisgwyl hyd fis Ebrill i gael gweld y neuadd ar ei newydd wedd gan y bu'n rhaid gohirio cwrs mis Mawrth oherwydd salwch, ar fyr rybudd, y tiwtor.

Buan y daeth ym mis Ebrill a braf oedd cael croesawu Eirlys Savage yn ôl atom i greu llun drwy ddefnyddio defnydd, edau ac ategolion. Cafodd yr aelodau ddewis i wneud y llun unai â brodio llaw neu beiriant. Tasg mis Mai oedd plygu defnydd a'i osod yn ofalus ar ddarn o ddefnydd i greu clustog seren, hyn o dan arweiniad Mim Roberts. Bu i ddwy aelod Catrin a Hazel (dwy chwaer) gyfuno eu paneli i greu bag dal sgwariau clytwaith. Yn ogystal â dangos i ni sut i greu y panel yma cawsom gyfle dros ginio i edrych ar ychydig o'i gwaith yr oedd wedi dod gyda hi. Roedd pawb wedi gwirioni efo'r eitemau ac gwahoddwyd hi yn ôl i roi cwrs arall i ni. Seibiant a gafwyd dros yr haf gyda nifer dda yn ymgynnull ddechrau Medi i gymdeithasu a gweithio ar ddarn o waith oedd angen ei gwblhau. Braf oedd croesawu Mim Roberts yn ôl atom ddechrau Hydref. Tro yma y dasg oedd creu panel allan o "Cathedral Windows" wedi ei gwneud hefo peiriant. Roedd pawb wedi gwirioni efo'r dechneg yma. Er i fwyafrif wneud clustog gyda'r panel, fe ddefnyddio ambell i aelod y panel i greu mat bwrdd ac arall i greu bag. Yn ystod y dydd cafwyd cyfle i weld gwaith a ddaeth â llwyddiant i Mim yn Sioe Frenhinol Cymru – roedd y gwaith yn werth ei weld.

Pwytho Araf (slow stitching) oedd testun ein cyfarfod mis Tachwedd. Sesiwn yn cael ei arwain gan Jane ac Anwen oedd hwn ble roeddem yn creu eitem drwy bwytho ar ddarn o ddefnydd i greu llun. Roedd hwn yn gwrs hamddenol a oedd hefyd yn tawelu yr enaid. Rydym wedi darganfod ffordd o fyfyrio drwy bwytho! Yn anffodus rhoddodd Storm Darragh stop ar ein cwrs fis Rhagfyr. Bydd yn rhaid disgwyl hyd flwyddyn nesaf i gael creu yr addurn Nadolig Bu'n flwyddyn gynhyrchiol i'r gangen a braf oedd cael croesawu aelodau newydd atom, gobeithio eu bod yn mwynhau yn ein cwmni.

Rydym yn nawr yn edrych ymlaen at y misoedd nesaf a'r arlwy sydd wedi ei drefnu ar ein cyfer, sef:

Mis Ionawr – Cinio Hen Galan – Tafarn Fourcrosses – Porthaethwy
Chwefror 1 – Clytwaith Ynys Manaw – Mair Reed
Mawrth 1 – Ailgylchu i greu bag – Alison Chapman
Ebrill 5 – Ffeltio nodwydd – Meinir Huws
Mai 3 - Brodio Peiriant rhydd - Lyn Morris

### GWAITH AELODAU MON/ARFON



**GWAITH AELODAU MON/ARFON**







## CANGEN Y CANOLBARTH

Blwyddyn arall wedi diflannu ond nid heb gyrsiau difyr i'w mynychu ac i gael oriau o bleser yn creu. Ddechrau'r flwyddyn ym mis Ionawr mae'n arferiad inni gael diwrnod yng nghwmni Meleri Jones o Telford. Mae ei mam yn aelod gyda ni ac erbyn hyn mae Meleri yn ein hadnabod yn dda. Roedd wedi dewis prosiect diddorol ar ein cyfer, a'r tro yma ei dewis ar ein cyfer oedd bag ciwb gyda zip dwbwl.

Gwaith peiriant oedd yr ail gwrs ym mis Chwefror yng ngofal un o'n haelodau, Diana Jones. Ei dewis hi inni oedd gwneud llond bwrdd o'r cŵn bach sionc. Ym mis Ebrill daeth Marian James o'r Trallwng atom i wneud gwaith du. Diwrnod hamddenol o frodio ac i weithio ar sawl patrwm gwahanol, er bod rhaid canolbwyntio'n ofalus wrth ddechrau patrwm newydd. Ar ddiwedd y prynhawn roeddem wedi creu clustog bach i'w hongian wrth siswrn neu allwedd.

Cawsom seibiant dros yr haf ac yna cwrdd eto ym mis Medi i wneud gwaith applique gyda Joan Phillips. Mae Joan hefyd yn hen gyfarwydd â dod atom a'i gwaith yn werth ei weld. Yn anffodus bu'n rhaid inni anghofio am y diwrnod o greu addurniadau Nadolig oherwydd salwch. Bydd rhaid cofio amdanynt Nadolig nesaf!

**Rhaglen 2025**

18 Ionawr - Gwnïo â pheiriant yng ngofal
Meleri Jones
15 Chwefror - Bag tiwlip gan ail-gylchu yng ngofal
Gwenno Watkins
15 Mawrth - Nodwydd gloi yng ngofal
Medwen a Rowena o'r Bala
15 Medi - Brodwaith â pheiriant neu â llaw yng ngofal Eirlys Savage, Llanelwy
15 Tachwedd - Gwaith ffelt yng ngofal
Beti Wyn Davies, Rhydyfelin

# GWAITH AELODAU CANGEN Y CANOLBARTH



Bag ciwb gyda Meleri

Cŵn bach sosej gyda Diana







Joan Phillips, tiwtor y gwaith applique.



Gwaith du gyda Marian James

## CANGEN MEIRIONYDD

Ar ddechrau blwyddyn newydd edrychwn yn ôl ar hyn ddigwyddodd yn 2024, a'r sialens i ni fel dosbarth o gynnal dosbarthiadau heb arweiniad gan Mair Rees.

Ym mis Ionawr fe gamodd dwy o'n aelodau i'r bwlch i'n harwain a'n dysgu yn y dechneg "gwaith pwyth clo" (lock stitch), diolch Medwen a Rowena am ein addysgu yn y dechneg o greu gyda gwlan trwchus ar ddefnydd mesh. Cafwyd amrywiaeth o batrymau ac mae ambell i glustog wedi ei chwbwlhau yn llwyddianus – gweler lluniau ambell ddafad ac phatrymau sgwariau.

Ymwelodd llawer o'n aelodau a'r arddangosfa arbennig yng Nghricieth ddiwedd mis Mawrth, cafwyd pleser mawr o weld yr amrywiaeth gwaith yno.

Ar Ebrill 13 daeth 16 ohonom ynghyd ac roedd Gwenfyl a Joan yno i'n harwain mewn "gwaith clwtwaith" (applique) gan greu llun doli gymreig. Diddorol oedd gweld yr amrywiaeth a greuwyd er ein bod i gyd wedi defnyddio'r un patrwm. Yn anffodus nid oedd ein aelodau ochrau Rhydymain a Bermo wedi gallu ymuno oherwydd caewyd y ffordd fawr oherwydd damain difrifol. Mae ambell doli wedi ei fframio yn barchus erbyn hyn, gweler y lluniau.

Diwedd Mai / dechrau Mehefin cafwyd arddangosfa o cwilitiau Bethan Hughes, Rhuthun yn Capel y Plase, Bala. Hefyd cafwyd prynhawn difir yn ei chwmni ar y 7fed o Fehefin. Mae'n bosibl ymweld a Bethan yn ei gweithdy yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun.

Daeth cais o'r Parc am eitemau i'w cynnwys mewn arddangosfa fechan ar y 4ydd o Orffennaf, diolch I bawb a gyfranodd.

Trist iawn oedd ffarwelio gydag un o'n aelodau selog, Eiriola Williams, mynychwyd ei hangladd ar y 7fed o Fai gan twr o ffrindiau o bob rhan o gymdeithas yno i gydymdeimlo â'i theulu.

Erbyn diwedd yr haf 'roeddem yn edrych ymlaen at gael gwers gwehyddu (weaving) gan Carys, un o'n aelodau, ond anffodus tarawyd criw Cerrig gyda Covid ac dim ond wyth ohonom ddaeth i'r dosbarth, ond llwyddwyd drwy gydymdrech i greu bocsus o bob lliw; i gyd yn ddeniadol iawn – gweler llun o'r criw bach gyda'u gwaith. Daeth mis Tachwedd yn aeafol iawn ond 'roedd yr eira wedi troi yn law erbyn y dydd Sadwrn. Mentrodd naw ohonom i'r dosbarth a oedd yng ngofal Gwerfyl, roeddem hefyd yn falch o groesawu Nesta (Richards) ein cyn aelod a ddaeth gyda hi. Cafwyd hwyl fawr ar greu "Cracer Nadoligaidd" pob un wedi ei chwbwlhau ar y diwrnod ac 'roedd rhai a fethodd y dosbarth hefyd yn awyddus i gael patrwm. Lwcus nad oedd aelodau Rhydymain wedi mentro oherwydd erbyn diwedd y diwrnod roedd y ffordd fawr ger Llanuwchllyn wedi ei chau gan llifogydd storm Bert.

Ac fel'na ddaeth ein blwyddyn i ben……edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o bwytho creadigol.

Pob hwyl i bawb, cofion Linda (Baughn, ysgrifennydd Meirionnydd).

## GWAITH AELODAU CANGEN MEIRIONYDD











# CANGEN Y GOGLEDD DDWYRAIN

Mae’r gangen yn cyfarfod yn fisol yn y neuadd yn Groes, ger tref Dinbych, a dros ugain o aelodau yn mynychu bob cyfarfod.   Yn ystod 2024, cawsom weithdai wedi eu harwain gan yr aelodau -  Eirian Jones gyda Chylch Lliw mewn brodwaith, Eirlys Savage a’i merch Bethan gydag addurn Pasg (cwningod ac ieir) ac Angharad Rhys gyda chlytwaith wedi ei ‘beindio’.  Ym mis Mai, cawsom groesawu Julie Lloyd Owen atom i’n dysgu i wneud darlun o’n hunain mewn edau.   Braf oedd cael gweld y gwaith wedi ei ddarfod a rhyfeddu at y llwyddiant.

Wedi egwyl dros yr haf, cawsom groesawu Rhiannon Parry atom unwaith eto i wneud bag anghymesur gwaith llaw Boro.  Gwaith peiriant a phlygu defnydd a wnaethom yng ngweithdy Angharad Rhys ym mis Hydref, gyda Gwenfyl Jones a Joan Salisbury yn ein harwain i wneud appliqué o ferch Gymreig y mis canlynol.  Diweddwyd y flwyddyn gyda chinio Nadolig blasus yng Nghaffi Cariad, Llanelwy, gydag amgylchiadau heriol iawn o wynt a glaw trwm wedi ein hwynebu cyn cyrraedd y bwyty. Mae’r caffi yng nghlwm i Hosbis St Kentigern ac yn agored i’r cyhoedd, gydag unrhyw elw yn mynd tuag at waith pwysig yr elusen.  Fe wnaethom gyfnewid edau am wlân yng nghyfarfod cynta’r flwyddyn, gyda Menna Thomas yn ein dysgu sut i wau ar 10 Pwyth a Gwen Evans yn ein dysgu i grosio a chrosio sgwariau nain.  Cafwyd cyfle hefyd i ddefnyddio ‘embellishers’ y Gymdeithas dan ofal Llinos Roberts a Lilian Jones.  Edrychwn ymlaen at y gweithdai canlynol am weddill y tymor:


15fed Chwefror, brodwaith ar gyfer cerdyn cyfarch, Lilian Jones
15fed Mawrth, Gwaith appliqué llaw, Gwenan Carrington
19eg Ebrill, Addurno efo brodwaith, Eirlys Savage a Bethan
17eg Mai, darfod unrhyw waith

Gweithdy clytwaith a rhwymo Angharad Rhys





Gweithy addurniadau Pasg Eirlys Savage a’i merch, Bethan



Gweithdy Rhiannon Parry



Gweithdy Brodwaith, cylch lliw – Eirian Jones,




Angharad Rhys, ail o’r chwith, rhes flaen, gydag aelodau’r gymdeithas ar ôl gweithdy Plygu defnydd






Gweithdy Julie Lloyd Owen  – hunan-bortread Eirlys Savage, Llywydd Rhanbarth y Gogledd Ddwyrain

# CYFLWYNIAD I ADRODDIAD LLEUWEN DAFYDD




Dyfarnwyd Lleuwen Dafydd o Benegoes ger Machynlleth yn deilwng i dderbyn Ysgoloriaeth y Gymdeithas am 2024. Mae hi bellach ar ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Manceinion yn dilyn cwrs tecstiliau “Textiles in Practice” ar ôl blwyddyn sylfaen yn y coleg Celf yng Nghaerfyrddin.  Mae wrth ei bodd ym Manceinion gyda’r tiwtoriaid a’r cyfleuon i ddysgu technegau newydd ac yn falch iawn fod yr arian yn mynd i’w helpu gyda’i datblygiad creadigol.



Adroddiad Lleuwen Dafydd


Braint oedd cael ennill yr ysgoloriaeth eleni a hynny tra’n astudio fy nghwrs sylfaen Celf a Dylunio yng Ngholeg Celf Caerfyrddin.  Rwyf bellach yn fy mlwyddyn gyntaf yn astudio gradd Tecstiliau ym Mhrifysgol Manceinion ac mae’r cyfle hwn wedi galluogi i mi ehangu fy sgiliau dylunio gan gyflwyno ongl newydd i mi o greu a datblygu fy syniadau.  Rwy’n mwynhau pob agwedd o’r cwrs hyd yma sy’n caniatau i mi fedru arbrofi ag amryw o arddulliau newydd o greu a chan dderbyn mewnbwn ac arweiniad newydd gan y Tiwtoriau sydd ar flaen eu maes.  Agwedd newydd i mi eleni yn y cwrs oedd y cylfe i arbrofi a llifo ‘dyes’ a chyfansoddiad lliwiau drwy gemegion a deunyddiau naturiol sydd o ddiddorbeb mawr i mi ac un rwyf am arbrofi ymhellach . Cefais hefyd y cyfle i arbrofi â dulliau gwehyddu(‘weave’ (a gwau a hynny ar beirianau domestig.  Mae hyn yn ychwanegu at fy nealltwriaeth flaenorol a dderbynniais tra ar y cwrs Sylfaen. Er hyn mae’r defnydd o frodwaith rhydd ar y peiriant yn gysonyn yn fy ngwaith. Rwy’n hynod ffodus fod y cyfleusterau brodwaith yn y brifysgol yn eang iawn.  Er hyn rhaid cyfaddef fod yr hyn a ddysgais tra’n astudio’r pwnc yn y chweched dosbarth ac yna ar y cwrs sylfaen wedi bod o fudd mawr i mi, fel dylunydd ar safon lefel gradd. A finne hanner ffordd drwy’r flwyddyn gyntaf galluoga’r ysgyloriaeth a'r rhodd ariannol i mi fedru ariannu’r ffabrigau a’r deunyddiau sy’n ofynnol i mi er mwyn medru parhau i arbrofi a chreu yn ystod y prosiectau ar y cwrs. Ac rwy’n hynod werthfawrogol o’r gefnogaeth yma ac yn ddiolchgar i’r gymdeithas.



Manylion cyswllt e-bost: lleuwen.dafydd@gmail.com







# GWEDDILL LLUNIAU YR ARDDANGOSFA YN CRICCIETH









SWYDDOGION Y GYMDEITHAS

**Mae sawl swydd eisiau ei llenwi os oes gan rhywun enw neu yn barod i dderbyn swydd cysylltwch ag Esyllt. Diolch yn fawr**

| | | |
|---|---|---|
| Sylfaenydd : Joyce Jones. | 01766 522085. | joyce@stitch.co.uk |
| Llywydd Cendelaethol : | | |
| Cadeirydd: Gwenfyl Jones. | 01745 890417 | meinididdos13@gmail.com |
| Is-gadeirydd: | | |
| Ysgrifennydd: Esyllt Jones. | 01792 898211. | jonesesyllt@ yahoo.com |
| Is- ysgrifennydd : | | |
| Trysorydd (dros dro) : Buddug Roberts | 01766 522497 | rhiwcriccieth@live.co.uk |
| Is-drysorydd: | | |
| Ysgrifennydd Aelodaeth: Eirian Jones | 01745 540325 | eirian.a.jones@btinternet.com |
| Golygydd y cylchlythyr: Gwenfyl Jones | 01745 890417 | meinididdos13 @gmail.com |
| ac Eleri Jones | 01745 583722. | hefin_eleri.jones@btinternet.com |

## Ysgoloriaeth Cymdeithas Brodwaith Cymru

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyriwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd. Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Rydym yn trefnu arddangosfa o waith yr aelodau bob blwyddyn pryd y caiff enillydd yr ysgoloriaeth gyfle i arddangos ei gwaith. I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â: Esyllt Jones, 01792 898211.
jonesesyllt@yahoo.com

**Aelodaeth**

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Gofynnir i bob cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol. Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau!
Gofynnwn unwaith eto am gyfeiriad e-bost yr oll o'n haelodau sydd ag un er mwyn hwylustod.
Eirian Jones, 01745 540325.
Ebost - eirian.a.jones@btinternet.com

**Bwrsari ar gyfer ein haelodau**

Cofiwch fod y Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis. Byddai'n braf cael nifer ohonoch yn ymgeisio. Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas. Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar unwaith.

**Lluniau**

Os ydych chi'n cynnal unrhyw fath o weithgaredd, cofiwch drefnu fod rhywun yn tynnu lluniau a'u hanfon i'r Golygyddion

**Cysylltwyr Lleol**

**Môn ac Arfon** - Gladys Pritchard 01407 762090
**Y De Ddwyrain** - Marian Evans 02920 843275
**Rhydaman** - Megan Bevan 01267 275461
**Meirionnydd** - Nesta Jones 01678 540610
**Canolbarth** - Eryl Evans 01970 820778
**Y Gogledd Ddwyrain** - Mary Mars Lloyd 01824 790276
**Dwyfor** - Meinir Lloyd Jones 01766 770745

**Defnyddiau brodio rhatach**

Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddaru'n gyson. Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i ni, dim ond i chi ddangos eich tocyn aelodaeth.
Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)
Siop D.E., Y Bala
Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiiniog

Golygyddion y Cylchlythyr: Gwenfyl Jones ac Eleri Jones
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru Argraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych.

**Dymunaf ymuno â Chymdeithas Brodwaith Cymru**

Enw: ……………………………………………………………………………………

Cyfeiriad:………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

Côd Post:……………………………     Ffôn:…………………………………………

Cyfeiriad e-bost ………………………………………………………………………

Rhif aelodaeth:…………………………………… (i'w lenwi gan y Gymdeithas).

Llenwch y Gorchymyn Archeb Sefydlog isod a'i dychwelyd at
Mrs Eirian A Jones, Fferm Bryn Isa, Llannefydd, Dinbych, LL16 5EU

---

## GORCHYMYN ARCHEB SEFYDLOG

Rhif Cyfrif Banc:…………………………………………………………     Côd Didoli: ___/___/___

At Reolwr Banc:…………………………………………………ccc

Cyfeiriad y Banc:

…………………………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………………

Côd Post:……………………………

Taler i gyfrif: **CYMDEITHAS BRODWAITH CYMRU**

**Cyfrif Banc Rhif:** 50454370     **Côd Didoli:** 20/35/47 ym Manc Barclays, Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd.

(Cyfeirnod:……… - i'w lenwi gan y Gymdeithas )

y swm o **£5.00** (pum punt) yn flynyddol gan ddechrau ar 1 Ionawr, 20______


Llofnod:…………………………………………………………………     Dyddiad……………………………………………

Enw Llawn:……………………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad:…………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

Côd Post:…………………………………




**Enw**…………………………………………..

**AELODAETH**
**am 2025**